

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos
Sadwrn, 21 Mai 2011 yn Hostel YHA Porth Einon**

Presennol: Presennol: Arwel (AR) – Cadeirydd ,Guto (GE), Rhys (RD),Dai (DT), Iolo (IPR), Sian (SS),Gareth (GR), Marion (MH).

Ymddiheuriadau: Alwen, Anita ,Iolo, Maldwyn,John

Croesawyd y newyddion fod Anita yn parhau i wella yn dilyn eu damwain yn yr Alban ym mis Chwefror ac wedi dechrau ail-afael mewn gweithgareddau mynydda.

1.	COFNODION	Gweithredu
	<p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr, 2011</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 2 – Materion yn codi o ddamwain Llew</u></p> <p>Cytunwyd y bod angen adolygu'r drefn a fabwysiadwyd yn dilyn damwain Llew er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd.</p> <p>Penderfynwyd ystyried hyn yng nghyfarfod nesa'r Pwyllgor ym mis Medi pan fydd y drefn newydd wedi bod yn rhedeg am dros 6 mis. IPR i'w osod ar y rhaglen.</p> <p>Nodwyd fod teulu Llew wedi cytuno i'r teithiau nodedig a oedd yn cael eu trefnu gan Alun Roberts ar 11 Mehefin i hel arian at Apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2012 - Eryri i gael eu cynnal yn enw Llew</p> <p><u>Eitem 9 - Offer</u></p> <p>Adroddodd IPR ei fod wedi derbyn pris gan Gwmni Brodwaith am gynhyrchu bathodynau brethyn. Penderfynwyd fod y pris a dderbyniwyd yn rhy uchel ac y dylid parhau i chwilio am ffynhonnell ratach ar gyfer darparu'r bathodynau</p> <p>Adroddodd GE ei fod wedi derbyn prisiau am grysau T, fleeces etc hefo logo'r clwb arnynt. Penderfynwyd bod yna werth i symud ymlaen hefo hyn. GE am gael fleece iddo fo'i hun a byddai yn trefnu fod llun ohono yn cael ei osod ar y safle We i weld beth fyddai'r ymateb. Os byddai ymateb ffafriol, byddai angen sefydlu trefn dosbarthu.</p>	<p align="center">IPR</p> <p align="center">GE</p>
2.	<p>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL – WRECSAM 2011</p> <p>Adroddwyd y methwyd cael hyd i bartneriaid i rannu'r gost o gael stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni. Roedd y gost o logi stondin yn sylweddol ond dywedodd GR ei fod yn fodlon cysylltu â threfnwyr yr Eisteddfod er mwyn gweld os byddai prisiau llogi stondin sengl wedi gostwng os yr oedd rhai dal heb eu gosod mor agos at ddyddiad yr Ŵyl.</p> <p>Er bod yna gryn amheuaeth os byddai gan y clwb bresenoldeb ar y maes gellid dal i barhau hefo gweithgareddau'r clwb yn ystod yr wythnos.</p> <p>Penderfynwyd na ellid cyfiawnhau'r gost o logi stondin ar faes yr eisteddfod heb gael partneriaid i rannu'r gost.</p> <p>Gofyn i GR edrych i mewn i'r posibilrwydd a'r ymarferoldeb o gael stondin sengl ar y Maes. Ar ôl derbyn manylion dylai ymgynghori hefo'r Cadeirydd ag ysgrifenyddion i weld os dylid symud ymlaen hefo hyn.</p>	<p align="center">GR</p>

	<p>Os na fydd gan y Clwb bresenoldeb yn yr Eisteddfod eleni, dylid rhoi nodyn ar safle We i hysbysu'r aelodau</p> <p>Bydd y Clwb yn parhau hefo gweithgareddau yn ystod yr wythnos gan gynnwys diwrnod o ddringo (AR i drefnu) ar y dydd lau a thaith. IPR i drefnu trosglwyddo'r wybodaeth i MPR drefnu i roi ar raglen y clwb.</p>	<p>IPR</p> <p>IPR/MPR</p>
3.	<p>LLYFRYN MYNYDDA</p> <p>Adroddwyd bod y Clwb wedi rhoi benthyciad o £1,000 i'r BMC baratoi'r argraffiad Cymraeg o'r llyfr safonol hyfforddi mynyddwyr, sef "Mynydda". Roedd gan y BMC stoc o 1,500 o'r llyfr yma ym Mhlas y Brenin ac roeddynt wedi datgan eu bod yn dymuno eu trosglwyddo yn ôl i feddiant y clwb yn lle talu'r benthyciad yn ôl. Roedd angen ystyried beth y dylid ei wneud hefo'r holl lyfrynnau hyn a pha opsiynau sydd yn bosib ar gyfer dosbarthu rhai ohonynt.</p> <p>Byddai AR yn trefnu i gasglu'r llyfrynnau o Blas y Brenin</p> <p>Penderfynwyd y dylid cynnig 2 gopi o'r llyfryn i bob Ysgol Uwchradd Gymraeg/Dwyieithog yng Nghymru. Codwyd y posibilrwydd y gellid defnyddio rhwydwaith o Swyddogion Datblygu'r Urdd i drefnu eu dosbarthu. Nodwyd y byddai DT yn cwrdd â'r swyddogion hyn yn y dyfodol agos ac y byddai yn codi hyn hefo nhw.</p> <p>Gellid rhoi nodyn ar y safle WE bod y llyfryn ar gael i'w brynu am bris rhad o £10</p> <p>Cynnwys copi ym mhecyn croeso i aelodau newydd</p>	<p>AR</p> <p>DT</p> <p>laG</p> <p>IPR</p>
5.	<p>AELODAETH Y CLWB</p> <p>Adroddwyd gan IPR bod y Pwyllgor wedi penderfynu yn ei gyfarfod diwethaf ystyried cael trefn o gael ffi ar gyfer aelodau iau o'r clwb. Roedd y Pwyllgor wedi datgan nad oedd ganddynt wrthwynebiad ond y dylai unrhyw ffi gyfro taliad a wneir gan y Clwb ar ran aelodau i'r CMP. Roedd IPR wedi edrych i mewn i hyn a chanfod mai £7 oedd y taliad i'r CMP ar ran aelodau dan 18</p> <p>Penderfynwyd o 2012 ymlaen cyflwyno ffi aelodaeth o £8 i aelodau 18 neu ieuengach sydd am ymuno a'r clwb</p> <p>Adroddwyd gan IPR fod yna lythyr wedi ei dderbyn gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn gofyn i'r clwb ystyried, fel modd i gael aelodau newydd, cynnig disgownt i aelodau UCAC am ymuno a'r clwb.</p> <p>Penderfynwyd er mwyn osgoi creu cysail hysbysu UCAC na fyddai'r clwb yn cynnig disgownt ar dâl aelodaeth y clwb i'w aelodau.</p>	<p>IPR</p> <p>IPR</p>
6.	<p>CYFARFOD BLYNYDDOL Y CLWB</p> <p>Nodwyd bod angen dechrau ar y trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfod blynyddol o'r clwb.</p> <p>Penderfynwyd y dylid rhoi ystyriaeth i gynnal y cyfarfod yn Ne Cymru eleni a chytunwyd y byddai aelodau'r Pwyllgor o'r de yn edrych i mewn i'r ymarferoldeb o wneud hyn.</p>	<p>DT/GE</p>

	Os byddai aelodau'r de yn canfod na fyddai yn bosib cynnal y cyfarfod yn y de yna byddai'r ysgrifenyddion a Thrysorydd mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd yn trefnu'r cyfarfod blynyddol yn y gogledd.	
7	OFFER Nodwyd fod angen sefydlu beth oedd wedi digwydd i'r llochesi a oedd wedi eu harchebu gan y clwb ar gyfer teithiau. Cytunwyd y dylid digolledu AD am y gaib a gollodd pan ddisgynnodd yn arwain taith y clwb yn yr Alban ym mis Chwefror.	AR
8.	CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG Cyflwynwyd er gwybodaeth nifer o ddogfennau a oedd wedi eu derbyn gan y CMP.	
8.	PARTNERIAETH AWYR AGORED Nodwyd er gwybodaeth fod cyswllt at gylchlythyr diweddaraf y Bartneriaeth ar safle We'r Clwb.	
	RHAGLEN GWEITHGAREDD NESAF Y CLWB. Nodwyd y bydd MPR yn gweithio ar baratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y clwb am y cyfnod Gorffennaf i Hydref 2011. Nodwyd tra roedd MPR yn derbyn rhestr o deithiau ar gyfer criw y de,criw dydd Mercher a gweithgareddau y criw dringo nad oedd unrhyw drefniant cyffelyb ar gyfer teithiau'r gogledd. Penderfynwyd y dylid codi hefo MPR y syniad ei fod yn cael cymorth i lunio rhaglen o weithgareddau yn y gogledd ac y byddai RD yn fodlon helpu hefo hyn.	IPR/RD
12	CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod neasaf o'r Pwyllgor yn ystod penwythnos y Clwb yn Nhrefin ar 23/24 Medi 2011	